ECAD5013-C S5

Ble ydw i'n addysgu?

Where am I teaching?

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa Institute of Education | Addysg i Gymru | Education for Wales

# Ble ydw i'n addysgu?

# Ffocws ar Gymuned

# Where am I teaching?

# A focus on Community

www.athrofa.cymru

# Amcan y sesiwn
# Session's aim



- Rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddarpar-athrawon ddadansoddi sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol yn dylanwadu ar faterion a datblygiad ysgol gyfan.

- To equip student-teachers with the skills needed to analyse how diverse cultural, linguistic, religious and socio-economic factors influence whole school issues and development.

# Beth mae 'cymuned' yn ei olygu?

# What does 'community mean?

- Pa syniadau sy'n dod i'ch meddwl chi? Rhestrwch gymaint o bwyntiau ag y medrwch.
- Byddwn yn defnyddio'ch syniadau chi i lunio diffiniad grwp.

- What ideas come to mind? List as many points as you can.
- We'll use your ideas to create a group definition.



# Ystyr cymuned ydy…
# Community means…

Mae'r term "cymuned" yn cwmpasu sawl diffiniad, gan adlewyrchu ei natur amrywiol. Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, mae "cymuned" yn enw benywaidd sy'n golygu "community."

Yn Saesneg, cyfieithir "cymuned" fel "community." Mae *Oxford Dictionary of Sociology* yn diffinio cymuned fel "a form of social, and often spatial, organisation centred on common interests and/or a locale." Yn gyffredinol, mae'n cynnwys grŵp o bobl... ac mae rhai yn ystyried bod gan gymuned set gyffredin o arferion neu amgylchiadau a rennir.

Mae deall cysyniad cymuned yn hanfodol ar draws sawl disgyblaeth, gan ei fod yn dylanwadu ar strwythurau cymdeithasol, polisïau, a lles unigolion. Er bod diffiniadau'n amrywio, mae elfennau cyffredin yn aml yn cynnwys diddordebau a rennir, cyfrifoldebau cydfuddiannol, ac ymdeimlad o berthyn ymhlith aelodau.

The term "community" encompasses various definitions, reflecting its multifaceted nature. According to the Oxford Dictionary of Sociology, a community is "a form of social, and often spatial, organisation centred on common interests and/or a locale." It generally involves a grouping of people, and some view a community as having a common set of customs or shared circumstances.

In the Welsh language, "community" is translated as "cymuned." Geiriadur Prifysgol Cymru (University of Wales Dictionary) defines "cymuned" as a feminine noun meaning "community."

Understanding the concept of community is crucial across various disciplines, as it influences social structures, policies, and individual well-being. While definitions may vary, common elements often include shared interests, mutual responsibilities, and a sense of belonging among members.

# ‘Cynefin’



“Dyma’r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae’r bobl a’r dirwedd o’n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae’r golygfeydd a’r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw, serch hynny. Dyma’r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy’n parhau i ffurfio’r gymuned sy’n trigo yno.”

*Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020, t.247)

“The place where we feel we belong, where the people and landscape around us are familiar, and the sights and sounds are reassuringly recognisable. Though often translated as ‘habitat’, cynefin is not just a place in a physical or geographical sense: it is the historic, cultural and social place which has shaped and continues to shape the community which inhabits it.”

*Curriculum for Wales Guidance* (Welsh Government, 2020, p.241)

# Beth am gymuned yr ysgol?
# What about the school's community?






# Beth yw prosiect cymunedol-ysgol? What is a school-community project?

Prosiect sy'n cefnogi'r canlynol:

- **Ymgysylltu â'r teulu.** Creu cyfleoedd ystyrlon i deuluoedd a gofalwyr gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, ei phenderfyniadau, a dysgu eu plant.
- **Ymgysylltu â'r gymuned.** Annog ysgolion i fanteisio ar gysylltiadau â grwpiau a sefydliadau cymunedol, a hefyd gynnig cefnogaeth a chyfleoedd i aelodau'r gymuned
- **Ymgysylltu â phartneriaethau amlasiantaeth.** Meithrin partneriaethau â gwasanaethau ehangach ac ymyrryd i gael gwared ag unrhyw rwystrau rhag dysgu.

A project that supports the following:

- **Family engagement.** Creating meaningful opportunities for families and carers to be involved in school life, decision making and  children’s learning.
- **Community engagement.** Encouraging schools to draw upon and utilise links with community groups and organisations and also offer support and opportunities to community members.
- **Multi-agency engagement.** Developing partnerships with wider services and interventions to remove any barriers to learning.

# Astudiaethau achos
# Case studies

**Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol**

**Community schools: families and communities at the heart of school life**

O dudalen 33 yn y ddogfen uchod, byddwch yn gweld cyfres o astudiaethau achos:

1. Beth wnaeth yr ysgolion gyda'r gymuned?
2. Pwy oedd y gymuned?
3. Pam wnaethon nhw hyn?
4. Beth oedd yr effaith, a sut oedden nhw'n gwybod?
5. Crynhowch eich atebion i’r cwestiynau uchod ac unrhyw wybodaeth allweddol arall rydych chi’n teimlo sydd gwerth ei rhannu.

From page 33 of the above document, you will find a series of case studies:

1. What did the schools do with the community?
2. Who were the community?
3. Why did they do this?
4. What was the impact, and how did they know?
5. Summarise your answers to the above questions and include any other key information you feel is worth sharing.


ADBORTH
FEEDBACK

Pa faterion sy'n wynebu ysgolion a'u cymunedau?

What matters are facing schools and their communities?

# Cymhwyswch yr ymagwedd ymchwil hon…
# Apply this research disposition…

**Bod yn sgeptigol**

- Deall tystiolaeth empirig mewn meysydd a amheuir
- Bod yn ymwybodol o yrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ar gyfer ‘tystiolaeth’

**Being sceptical**

- Understand empirical evidence in contested fields
- Being aware of political, economic and social drivers for ‘evidence’

# Beth mae'r penawdau'n awgrymu? What do the headlines suggest?

- https://golwg.360.cymru/newyddion/addysg/2070052-dysgu-hanes-pobl-asiaidd-ethnig-lleiafrifol-rhan
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/44952664
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/62691789
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/51637062
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/51418599
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/49732691
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/40563590
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/42744261
- https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/23770084

- https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56447682
- https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-44953312
- https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-64067393
- https://www.walesonline.co.uk/news/education/grangetown-primary-school-cardiff-diversity-16521092
- https://www.walesonline.co.uk/news/education/devastating-effect-poverty-having-young-14171835
- https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51629420
- https://www.itv.com/news/wales/2020-02-26/my-daughter-felt-under-attack-for-being-a-young-black-girl-survey-reveals-extent-of-racism-in-schools/
- https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51407327
- https://www.walesonline.co.uk/news/education/im-gay-teacher-its-important-15840728
- https://www.independent.co.uk/news/education/education-news/sex-education-class-school-wales-lgbt-religious-studies-parents-lessons-a9296026.html
- https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-49729041
- https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-46909295

# Pa gwestiynau sydd gennych?
# What questions do you have?

